**Crynodeb**

Gosod y safonau ymddygiad a ddisgwylir gan staff Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Mae'r weithdrefn hon wedi'i mabwysiadu gan SCHTh Gogledd Cymru..

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Cod Ymddygiad - Staff |
| **Perchennog y Polisi:** | Y Prif Weithredwr |
| **Awdur y Polisi:** | Swyddog Gweithredol |
| **Rhif Polisi:** | 4 |
| **Dyddiad Dechrau** | 22.05.2013 |
| **Diweddariad** | 19.06.2024 |
| **Dyddiad Adolygu** | 19.06.2028 |
| **Fersiwn:** | 2.0 |

## Cynnwys

1. **Cyflwyniad** ....................................3
2. **Gonestrwydd, Unplygrwydd, Amhleidioldeb a Gwrthrychedd** ....................................3
3. **Atebolrwydd** ....................................3
4. **Parch tuag at Eraill** ....................................3
5. **Stiwardiaeth** ....................................3
6. **Buddion Personol** ....................................4
7. **Cofrestru Buddion** ....................................4
8. **Penodi a Materion Cyflogaeth** ....................................4
9. **Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban** ....................................4
10. **Cydraddoldeb** ....................................4
11. **Didwylledd** ....................................5

**12. Dyletswydd Ymddiriedaeth ........ 5**

**13. Cwynion ........ 5**

**14. Monitro ........ 5**

Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cod hwn yn berthnasol i staff cyflogedig sy'n gweithio dan gyfarwyddyd a rheolaeth Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (Y Comisiynydd).

1.2 Mae'r Cod hwn yn ffurfio rhan o delerau ac amodau cyflogaeth y gweithwyr.

1.3 Nid yw'r Cod hwn yn berthnasol pan mae staff yn ymgymryd â gweithgareddau yn breifat, er y disgwylir safonau ymddygiad da gan bawb yn eu bywydau preifat. Mae gofyn bod staff yn ymwybodol o effaith eu gweithrediadau ar enw da y CHTh.

**2. Gonestrwydd, Unplygrwydd, Amhleidioldeb a Gwrthrychedd**

2.1 Mae'n rhaid i'r gweithiwr gyflawni ei dd/dyletswyddau gyda gonestrwydd, unplygrwydd, amhleidioldeb a gwrthrychedd.

**3. Atebolrwydd**

3.1 Mae'n rhaid i'r gweithiwr fod yn atebol i'r Comisiynydd am ei w/gweithredoedd.

**4. Parch tuag at Eraill**

4.1 Mae'n rhaid i'r gweithiwr:

a) drin eraill â pharch

b) beidio â gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn unrhyw unigolyn; a

c) thrin y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd yn broffesiynol.

**5. Stiwardiaeth**

5.1 Mae'n rhaid i'r gweithiwr:

a) ddefnyddio unrhyw arian cyhoeddus a roddwyd yn ei ofal/gofal neu iddo/i mewn modd cyfrifol a chyfreithlon; a

b) ni ddylai ddefnyddio eiddo, cerbydau na chyfleusterau eraill sydd gan y Comisiynydd er diben personol oni bai ei f/bod wedi cael caniatâd i wneud hynny.

**6. Buddion Personol**

6.1 Ni ddylai gweithiwr yn rhinwedd ei swydd neu yn ei f/bywyd personol:

a) ganiatáu i'w f/buddion personol ef/hi wrthdaro â gofynion a buddion y Comisiynydd

b) defnyddio ei swydd yn amhriodol er mwyn rhoi mantais neu anfantais i unrhyw unigolyn.

7. **Cofrestru Buddion**

7.1 Mae'n rhaid i'r gweithiwr gydymffurfio â gofynion y Comisiynydd:

c) i gofrestru neu ddatgan buddion; a

d) datgan lletygarwch, buddion neu anrhegion a gafwyd o ganlyniad i'w swydd ef neu hi.

**8. Penodi a Materion Cyflogaeth**

8.1 Ni ddylai gweithiwr sy'n gysylltiedig â phenodi neu wneud penderfyniadau disgyblu, dyrchafu neu raddio swyddi fod yn gysylltiedig â'r broses pan fydd ef/hi yn perthyn i'r ymgeisydd/gweithiwr, neu os bydd ganddo/i berthynas bersonol agos gyda hi/gydag ef y tu allan i'r gwaith.

**9. Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban**

9.1 Os bydd gweithiwr yn ymwybodol o weithgareddau y mae ef/hi yn credu sy'n anghyfreithlon, yn amhriodol, yn anfoesegol neu'n mynd yn groes i'r Cod hwn mewn unrhyw ffordd arall, dylai'r gweithiwr riportio'r mater, gan weithredu'n unol â gweithdrefn riportio cyfrinachol y Comisiynydd .

9.2 Ni ddylai gweithiwr drin unrhyw un o weithwyr eraill y Swyddfa yn llai ffafriol oherwydd bod y gweithiwr arall wedi gwneud, yn bwriadu gwneud neu dan amheuaeth o wneud unrhyw beth dan neu wrth gyfeirio at unrhyw weithdrefn sydd gan y Comisiynydd ar gyfer riportio materion o'r fath fel y nodwyd uchod.

**10. Cydraddoldeb**

10.1 Mae'n rhaid i'r gweithiwr gydymffurfio â pholisïau'r Comisiynydd sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb yn ogystal â gofynion y gyfraith.

**11. Didwylledd**

11.1 Mae'n rhaid i'r gweithiwr:

a) beidio â dadlennu gwybodaeth a roddwyd iddo ef/iddi hi yn gyfrinachol gan unrhyw un, neu wybodaeth y mae ef/hi wedi'i chael sydd, yn ei farn ef/barn hi yn gyfrinachol, heb ganiatâd yr unigolyn sydd ag awdurdod i'w rhoi, oni bai bod rhaid iddo/i wneud hynny yn ôl y gyfraith; a

b) pheidio ag atal unigolyn arall rhag cael mynediad i wybodaeth y mae gan yr unigolyn hwnnw hawl iddi yn ôl y gyfraith.

**12. Dyletswydd Ymddiriedaeth**

12.1 Mae'n rhaid i'r gweithiwr ar bob adeg weithredu gyda'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi'i rhoi iddo ef neu iddi hi.

**13. Cwynion**

13.1 Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn bod gweithiwr wedi torri'r Cod Ymddygiad hwn at Brif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu fel mae'r gyfraith yn nodi. Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn am y Prif Weithredwr at y Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu fel mae'r gyfraith yn nodi.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Glan-Y-Don
Bae Colwyn
LL29 8AW

**14. Monitro**

14.1 Bydd y Polisi hwn yn cael ei adolygu gan y Prif Weithredwr ym mis Mehefin 2028, neu yn dilyn unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth.